OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1915 (Cy.209)

DIOGELU'R ARFORDIR, CYMRU

Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Amrywio'r Dyfroedd a Eithrir) (Afon Teifi) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*20 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Gweinidog gan baragraff 113 o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Amrywio'r Dyfroedd a Eithrir) (Afon Teifi) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Awst 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Diwygio Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949

2. Ym mharagraff 83 o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949 (sydd, at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf, yn eithrio dyfroedd penodol sy'n ffurfio rhan o Afon Teifi o'r diffiniad o "*sea*" a "*seashore*"), yn lle "*above the ferry north of St Dogmells*" rhodder y geiriau "*above Priory Bridge at Cardigan*"."

(**1**) 1949 p.74.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).